

# Tasg Arbennig Hydref 2021: Y Cyfnod Sylfaen

---

## Y Dasg

Mae'r arolygon gynhalion ni ym mis Mai 2020 a mis Ionawr 2021 wedi dangos bod y pandemig wedi cael effaith ar lesiant llawer iawn o blant. Mae Sally hefyd yn gwybod bod ysgolion yng Nghymru yn gwneud llawer o waith i ofalu am eu disgyblion a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n mwynhau eu hawliau i fod yn iach ac yn ddiogel.

Eich tasg chi yw darganfod sut yn union mae eich ysgol yn cefnogi llesiant disgyblion, a rhannu hynny gyda disgyblion eraill yn eich ysgol.

### Cam 1.

Trafodwch y pwnc gyda'ch dosbarth yn ystod amser cylch. Mae yna awgrymiadau isod gallwch ddefnyddio, neu gallwch chi addasu'r cwestiynau i siwtio'ch disgyblion:

- Beth yw ystyr y gair lles?
- Pwy neu beth sy'n eich helpu i gadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn yr ysgol?
- Beth arall gall eich ysgol gwneud i gadw chi'n hapus, iach ac yn ddiogel?

### Cam 2.

Crëwch gyflwyniad ar gyfer Tîm Arweinwyr Uwch eich ysgol a/neu lywodraethwyr yr ysgol er mwyn egluro eich trafodaethau o amser cylch. Gallwch chi wneud cyflwyniad ar lafar, arddangosfa neu fideo.\*

\*Nodyn: os ydy Llysgenhadon Gwych o CA2 yn eich ysgol yn gwneud y Dasg Arbennig hefyd, gall eich disgyblion Cyfnod Sylfaen cyflwyno iddyn nhw yn lle, i sicrhau byddan nhw'n ystyried barnau'r holl ysgol pan fyddan nhw'n cwrdd â'r Tîm Arweinwyr Uwch.

Dangoswch i Sally beth wnaethoch chi trwy anfon neges drydar i @complantcymru neu e-bostio [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk) cyn **17 Rhagfyr**.

